## Sul y Blodau

**Darllen Mathew 21:6–11**

Pan ddaw Sul y Blodau yn ei dro, mae'n anodd gwneud pen na chynffon o'r digwyddiad. Ar y naill law mae'n ddiwrnod o ddathlu – dathlu Iesu'r Brenin yn marchogaeth i'r brifddinas, Jerwsalem, ar gefn ebol asyn. Mae'r dorf, yn blant ac oedolion, yn taenu eu dillad a changhennau'r palmwydd ar y ffordd i ddangos eu croeso i'r Brenin Iesu. Mae'r dorf yn bloeddio eu cymeradwyaeth ac mae'r Brenin yn marchogaeth yn sŵn 'Hosanna' ei bobl. Geiriau'r hen broffwyd Sechareia oedd yn adleisio trwy furiau'r hen ddinas, 'Bendigedig yw'r un sy'n dod yn enw'r Arglwydd. Hosanna yn y goruchaf!' (Mathew 21:9)

Ond ar y llaw arall, onid tân siafins oedd y cyfan? Tybed oedd y dorf wedi camddeall a chamddehongli ei neges? Dewisodd ebol asyn yn fwriadol – arwyddlun o ddiymadferthedd, o wyleidd-dra a gostyngeiddrwydd. A'r dorf yn bloeddio ei chymeradwyaeth.

Cennad heddwch, tangnefedd, cymod a brawdgarwch a farchogodd i mewn i Jerwsalem ar Sul y Blodau. Gwyddai'n iawn beth oedd ei dynged. A dyna pam ei bod yn anodd dathlu ar Sul y Blodau. Dydi dynolryw erioed wedi gallu dygymod â gwyleidd-dra, ufudd-dod, troi'r foch arall a cherdded yr ail filltir. Geirfa a gweithredoedd y llwfr, y di-asgwrn cefn a'r Sioni naill ochr yw'r elfennau hyn i'r byd. A chan na all dyn lawn ddeall nac amgyffred y pinaclau hyn mae Sul y Blodau'n symbol o fethiant affwysol, o ddallineb a diffyg crebwyll y natur ddynol dros y canrifoedd. O edrych yn ôl, oni fyddai'n well pe na bai gweithred Sul y Blodau wedi digwydd o gwbl? Mae rhyw orfoledd ffug wedi digwydd. Bloeddio a chyhwfan canghennau'r palmwydd i ddim byd! Ychwanegu at ei dosturi a'i ofid wnaeth y digwyddiadau – roedd y dorf wedi camddehongli ei weinidogaeth yn llwyr.

Felly, marchogodd i'r ddinas dan gwmwl. Y cwmwl sy'n cyniwair pan fo'ch cenadwri a'ch gweithredoedd yn yfflon. Y boen o gael eich camddeall. Ond doedd dim troi'n ôl bellach. Aeth Iesu i mewn i ffau ei wrthwynebwyr, cysegr ei Dad. Dymchwelodd y byrddau a chyhuddodd weision Annas o droi tŷ ei Dad yn ogof lladron. Yno y mynnai aros ymhlith ei erlidwyr, pawb oedd wedi camddeall ei neges – yn fonedd a gwrêng. Cythruddodd y crefyddwyr a chynhyrfodd y werin. Cornelwyd ef gan archoffeiriad a phrocuradur. Fe'i cafwyd yn euog. Daeth bonllefau Sul y Blodau i'w boenydio a'i ofidio, 'Ai ti yw Brenin yr Iddewon?' oedd cwestiwn Pilat iddo. Ildiodd yn ufudd i'r Tad. Ni allai wneud dim amgen. Hon oedd ei awr fawr. Nid awr Annas na Chaiaffas na Philat oedd hon. Awr Iesu. Awr Duw. Iddo ef roedd gwyleidd-dra'n drech nag arwriaeth, ac ufudd-dod yn drech na hunanoldeb.

Ar Sul y Blodau, mor hawdd yw cael ein hudo gan fonllefau'r dorf a gorymdeithio'n hyderus a beiddgar yn enw Iesu'r Brenin. Yn hytrach, gwisgwn fentyll gwyleidd-dra a gostyngeiddrwydd, a cherddwn ymlaen gam wrth gam tua'r deyrnas sy'n dyrchafu addfwynder, tangnefedd, purdeb a chyfiawnder. Dathlwn yr elfennau hyn ar Sul y Blodau – elfennau ysywaeth sy'n anghyfarwydd i fyd ac eglwys.

**Myfyrdod pellach:**
A ddylen ni gyfeirio at Iesu fel y 'brenin'? Ydi'r enw ynddo'i hun yn gamarweiniol i ddisgrifio cenhadaeth Iesu?
Pa ansoddair/ansoddeiriau y dylen ni eu defnyddio pan fyddwn yn cyfeirio at Iesu?

***Huw John Hughes***